Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Aran Hall

Rhydymain
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2AR

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aran Hall

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Aran Hall |
| Statws y perchennog | SENAD Group |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 11 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 9 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/06/2024 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/11/2025 |

### Cyd-destun yr ysgol:

Mae Aran Hall yn ysgol annibynnol sydd ar safle gwledig ym Mharch Cenedlaethol Eryri, ger tref Dolgellau yng Ngwynedd. Mae'n un o chwe ysgol arbenigol sy'n cael eu gweithredu ledled Cymru a Lloegr gan SENAD Group. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi ar gyfer hyd at 20 disgybl rhwng 11 ac 18 oed sydd ag ystod o anableddau dysgu, cyflyrau'r sbectrwm awtistig ac ymddygiadau heriol cysylltiedig. Mae'n cynnig lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl 38–52 wythnos.

Adeg yr arolygiad, roedd 11 disgybl ar y gofrestr. Mae pob un o'r disgyblion yn fechgyn, a bron pob un ohonynt yn byw yn y cartref plant sydd wedi'i leoli ar yr un safle â'r ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gynlluniau addysg, gofal ac iechyd (CAGIau) ac maent yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae gan ychydig ohonynt gynlluniau datblygu unigol (CDUau) ac maent yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2020 ac yn cael ei chefnogi gan bennaeth dysgu, a benodwyd yn 2019, ynghyd â thri athro a phedwar cynorthwyydd addysgu.

Mae gwerthoedd craidd 'Parch, Credu, Cyflawni' ('Respect, Believe, Achieve') yn sail i waith yr ysgol, a'i nod yw cael pobl ifanc i ailymgysylltu ag addysg, hyrwyddo annibyniaeth a hunanofal, a chreu cyfleoedd pwrpasol ar gyfer cyfranogiad cymunedol.

Cynhaliwyd ymweliad monitro diwethaf yr ysgol ym mis Mehefin 2024.

## Crynodeb

Mae Ysgol Aran Hall yn darparu amgylchedd digynnwrf a chefnogol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae perthnasoedd cryf ac ymddiriedus rhwng staff a disgyblion yn sail i bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn helpu disgyblion i ailymgysylltu ag addysg ar ôl anawsterau blaenorol. Mae staff yn adnabod pob disgybl yn dda ac yn defnyddio dulliau personoledig sy'n magu hyder, yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn annog mwynhad mewn dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn berthnasol ac wedi'i gynllunio o amgylch diddordebau disgyblion a'u nodau at y dyfodol. Mae'n cynnwys ystod o gymwysterau achrededig a dysgu ymarferol, yn seiliedig ar fywyd, fel cyllidebu, siopa a choginio. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i gymhwyso gwybodaeth yn ddilys a datblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer bywyd oedolyn. Mae athrawon a staff cymorth yn cynllunio dysgu gyda'i gilydd yn effeithiol, gan greu gwersi pwrpasol sy'n gweddu i anghenion unigol yn dda.

Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw ei rhaglen *Achieve!*, sef fframwaith sefydledig a chynhwysol sy'n dathlu cynnydd academaidd, cymdeithasol a phersonol disgyblion yn effeithiol. Mae'n cydnabod ymdrech, cyfrifoldeb a llwyddiant, gan helpu disgyblion i osod nodau, myfyrio ar eu cyflawniadau ac ymfalchïo yn eu dysgu. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo hunanddisgyblaeth, cymhelliant a gwaith tîm ac yn cyfrannu'n gryf at ethos cadarnhaol yr ysgol a hyder cynyddol disgyblion.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd clir yn datblygu eu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Maent yn dod yn fwy hyderus o ran mynegi eu syniadau, cwblhau gwaith ysgrifenedig a chymhwyso rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae diogelu yn gryfder clir yn yr ysgol. Mae staff yn rhannu gwybodaeth yn brydlon ac yn gweithredu'n gyflym pan fydd pryderon yn codi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael cefnogaeth dda. Caiff ymddygiad ei reoli'n deg ac yn gyson, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch a charedigrwydd tuag at ei gilydd.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn darparu cyfeiriad strategol cryf ac yn sicrhau bod addysg, gofal a therapi yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Maent yn gwybod beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella o hyd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion mewn medrau allweddol fel llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn ddigon trylwyr, sy'n ei gwneud yn anodd mesur cynnydd dros gyfnod. Yn ychwanegol, nid yw'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno'n gyson ar draws grwpiau blwyddyn eto.

At ei gilydd, mae Ysgol Aran Hall yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae bron pob un o’r disgyblion yn ffynnu’n bersonol ac yn gymdeithasol, ac yn gwneud cynnydd ystyrlon yn datblygu hyder, cyfathrebu ac annibyniaeth.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Aran Hall yn darparu amgylchedd digynnwrf ac anogol lle mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn sail i bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn cyfrannu’n sylweddol at les disgyblion a’u hailymgysylltiad â dysgu. Mae timau addysg, gofal a therapi yn gweithio gyda’i gilydd yn agos i ddarparu profiadau hynod bersonoledig sy’n adlewyrchu anghenion a dyheadau unigol disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu hyder, eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol.

### Cwricwlwm a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr wedi datblygu cwricwlwm eang a pherthnasol sy’n cyfuno dysgu ymarferol, galwedigaethol ac sy’n seiliedig ar ddiddordebau i hyrwyddo annibyniaeth disgyblion a’u paratoi’n dda ar gyfer eu camau nesaf. Mae cynllunio’n dechrau gyda chyrchfannau bwriadedig disgyblion ac yn darparu llwybrau hyblyg sy’n arwain at ystod o gymwysterau achrededig sy’n gweddu i anghenion unigol.

Mae dull trawsgwricwlaidd yr ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac annibyniaeth yn effeithiol. Mae cynlluniau gwaith a chynlluniau addysg unigol yn arwain staff wrth gyflwyno profiadau dysgu personoledig sy’n adlewyrchu anghenion a dewisiadau pob disgybl. Mae’r ffocws cyson hwn ar berthnasedd a phersonoli yn galluogi disgyblion i ymgysylltu’n llwyddiannus a gwneud cynnydd pwrpasol.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau gwerthfawr sy’n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cynllun cydlynus i sicrhau bod ABCh yn cael ei chyflwyno’n raddol ac yn gyson ar draws grwpiau blwyddyn.

Mae addysgu ar draws yr ysgol yn bwrpasol a difyr, wedi’i ategu gan berthnasoedd gwresog, ymddiriedus sy’n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a chyfranogiad cyson. Caiff gwersi eu cynllunio a’u haddasu’n llwyddiannus i ddiwallu anghenion unigol disgyblion, gan adeiladu’n effeithiol ar eu diddordebau a’u camau datblygiadol.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau ymarferol, dilyniannol fel cyllidebu, siopa a choginio yn dda i helpu disgyblion i gymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destunau ystyrlon.

Mae staff cymorth yn darparu arweiniad amserol sy'n hyrwyddo hyder a hunanddibyniaeth yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae gweithgareddau rhyngweithiol yn cryfhau cyfathrebu, cydweithio a lles disgyblion.

Mae staff yn darparu adborth rheolaidd sy'n atgyfnerthu llwyddiant ac yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella. Mae'r cysondeb hwn yn hyrwyddo hunan-barch ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Fodd bynnag, er bod arferion adborth yn gryf, nid oes gan yr ysgol ddull systematig i olrhain cynnydd o bwyntiau asesu cychwynnol, sy'n ei gwneud yn anodd i arweinwyr werthuso effaith addysgu ac addasiadau i'r cwricwlwm yn llawn.

### Datblygu medrau

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu. Maent yn ysgrifennu at ddibenion ymarferol fel negeseuon e-bost a chofnodion dyddiadur, ac yn siarad a gwrando yn gynyddol hyderus. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig a chreadigol eu cyfyngu gan ofynion strwythuredig achredu ac argaeledd cyfyngedig addysgu arbenigol.

Caiff medrau rhifedd eu hatgyfnerthu trwy dasgau ymarferol sy'n datblygu dealltwriaeth o gyllidebu, mesur a thrin data. Er bod disgyblion yn datblygu rhifedd swyddogaethol cadarn trwy dasgau ymarferol, mae llai o gyfleoedd cynlluniedig iddynt gymhwyso rhesymu rhifiadol ar draws y cwricwlwm ehangach.

Mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn briodol ar gyfer ymchwil a chyfathrebu, ond mae cyfleoedd i ddatblygu cymhwysedd digidol yn gyfyngedig.

Mae rhaglenni strwythuredig mewn medrau bywyd, dysgu yn yr awyr agored a'r celfyddydau creadigol yn hyrwyddo annibyniaeth, cydweithrediad a hyder. Mae agweddau disgyblion at ddysgu yn gyson gadarnhaol, ac maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer dilyniant mewn medrau llythrennedd, rhifedd a medrau ehangach yn ddigon cydlynus i gefnogi dealltwriaeth glir o sut mae disgyblion yn datblygu'r medrau hyn dros gyfnod. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr olwg gadarn ar y cynnydd a wna disgyblion, effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth na ph'un a yw disgyblion yn derbyn lefel yr her sydd ei hangen i gefnogi cynnydd uchelgeisiol.

### Cadw'n Ddiogel

Mae trefniadau diogelu yn Ysgol Aran Hall yn gadarn ac yn cael eu deall yn dda gan staff. Mae arweinwyr dynodedig o fyd addysg, gofal a therapi yn darparu goruchwyliaeth glir, gan sicrhau arfer gyson. Mae gweithdrefnau recriwtio a hyfforddi yn gadarn, ac mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'u cyfrifoldebau am gadw disgyblion yn ddiogel.

Caiff diwylliant o wyliadwriaeth ei gynnal trwy hyfforddiant rheolaidd, sesiynau briffio dyddiol a thrafodaeth agored am bryderon sy’n dod i’r amlwg. Mae staff yn gweithredu’n gyflym ac yn briodol, gan gynnwys wrth ymateb i arwyddion o bryder dieiriau neu ymddygiadol. Caiff achosion o ymddygiad heriol eu rheoli’n effeithiol ac yn gymesur, a defnyddir arfer fyfyriol yn dda i fireinio cynlluniau cymorth a diogelwch disgyblion.

Mae cyfarfodydd rheolaidd ar draws timau yn cefnogi monitro digwyddiadau a thueddiadau yn ofalus, gan arwain at hyfforddiant targedig ac adolygu polisïau. Mae gan ddisgyblion lwybrau hygyrch i rannu pryderon trwy ymweliadau eirioli, sesiynau gweithwyr allweddol a deialog agored gyda staff. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ac yn ymateb yn briodol.

O ganlyniad i gymorth cyson a disgwyliadau uchel, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o ran rheoli eu hemosiynau, ac yn dangos gostyngiad nodedig mewn ymddygiad heriol dros gyfnod.

Mae diwylliant cynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch yn effeithiol, gan sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi.

### Ciplun: Rhaglen Achieve!

Mae rhaglen Achieve! yr ysgol yn cryfhau ei diwylliant o ofal a chysondeb yn effeithiol. Mae’r fframwaith cynhwysol hwn yn dathlu cynnydd academaidd, cymdeithasol a phersonol disgyblion ac yn darparu llwybr clir sy’n cydnabod ymdrech, cyfrifoldeb a chyflawniad. Mae staff yn cymhwyso’r fframwaith yn gyson i hyrwyddo agweddau ac ymddygiad cadarnhaol, gan annog disgyblion i osod nodau, myfyrio ar gynnydd ac ymfalchïo yn eu llwyddiannau.

Mae’r fframwaith addasadwy yn galluogi pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth, i gyflawni’n ystyrlon. Mae rhieni’n gwerthfawrogi’r rhaglen, gan nodi ei bod yn helpu plant i ddeall disgwyliadau, datblygu hunanddisgyblaeth a rhannu cyflawniadau gartref.

Trwy gydnabod dyfalbarhad, gwaith tîm, empathi ac arweinyddiaeth, mae’r rhaglen yn meithrin annibyniaeth ac ymwybyddiaeth gymdeithasol disgyblion. Mae’n cryfhau cyfathrebu, cydweithrediad a datrys problemau, gan gefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn magu hyder o ran rheoli heriau, dangos blaengaredd a dathlu llwyddiant disgyblion eraill.

At ei gilydd, mae rhaglen Achieve! yn cyfrannu’n sylweddol at gymhelliant a hunan-barch disgyblion, a’u parodrwydd ar gyfer bywyd y tu hwnt i’r ysgol.

## Datblygiad personol

Mae ethos yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol bron pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn deall ac yn arddangos gwerthoedd fel parch, cyfrifoldeb a goddefgarwch trwy ryngweithio a chyfranogiad dyddiol ym mywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor Ysgol ac yn cyfrannu at weithgareddau ehangach, yn cynnwys dyletswyddau cymunedol, prosiectau elusennol a fforymau gwneud penderfyniadau, sy'n cryfhau eu hyder a'u synnwyr o gyfrifoldeb.

Trwy'r profiadau hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu arweinyddiaeth, cydweithrediad ac empathi, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer cyfranogiad gweithredol mewn cymdeithas. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gallu cael gwybodaeth sy'n briodol i oedran am gyfleoedd astudio a gwaith yn y dyfodol. Mae dysgu yn gysylltiedig â gwaith ar y safle ac oddi ar y safle, yn helpu disgyblion i feithrin medrau ymarferol a deall disgwyliadau bywyd oedolyn.

## Cyfathrebu a phartneriaethau

Mae'r cyfathrebu rhwng staff a gweithwyr proffesiynol eraill yn bwrpasol a chyson. Mae sesiynau briffio dyddiol a chyfarfodydd rheolaidd am addysg yn sicrhau bod gwybodaeth am anghenion, lles a chynnydd disgyblion yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng timau addysg, gofal a therapi. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn cefnogi parhad ac yn helpu staff i ymateb yn brydlon i faterion sy'n dod i'r amlwg.

Mae arweinwyr yn rheoli cyfnodau pontio yn sensitif ac yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod disgyblion yn setlo'n gyflym ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol ar ôl anawsterau blaenorol mewn addysg. Mae cyswllt cynnar â theuluoedd a lleoliadau blaenorol yn cyfrannu'n gryf at gyfnod ymsefydlu esmwyth disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni'n mynegi hyder yn ansawdd yr addysg a'r gofal a gaiff eu plant ac yn gwerthfawrogi'r cynnydd a wna disgyblion o ran hyder, ymddygiad ac ymgysylltiad. Fodd bynnag, nid yw adrodd ffurfiol bob amser yn darparu manylion digonol ar fannau cychwyn disgyblion, eu cynnydd na'u meysydd allweddol i'w datblygu, ac mae cyfleoedd i deuluoedd ymwneud yn fwy â bywyd ysgol yn gyfyngedig.

## Arweinyddiaeth a gwelliant

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir sydd wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd cryf yr ysgol, a'i hethos sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac wedi sefydlu dull integredig lle mae addysg, gofal a therapi yn gweithio'n gydlynus i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r cysondeb hwn yn helpu disgyblion i ailymgysylltu â dysgu a gwneud cynnydd ystyrlon. Mae staff yn elwa ar waith tîm cryf ac arweinyddiaeth

agos-atoch, gyda goruchwyliaeth reolaidd a sesiynau briffio dyddiol sy'n cefnogi lles, yn hyrwyddo arfer gyson ac yn galluogi rhannu gwybodaeth effeithiol.

Mae hyfforddiant gorfodol mewn diogelu, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf wedi hen ennill ei blwyf ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion. Mae bron pob un o'r staff yn arddangos dealltwriaeth gadarn o ddulliau sy'n ystyriol o drawma, sy'n cefnogi amgylchedd dysgu digynnwrf a rhagweladwy. Fodd bynnag, mae dysgu proffesiynol mewn cynllunio'r cwricwlwm ac asesu yn llai datblygedig. Mae bylchau mewn arbenigedd pynciau ac asesu yn cyfyngu ar gysondeb cynllunio a gwerthuso, er bod arweinwyr wedi dechrau cryfhau hyfforddiant ac egluro disgwyliadau. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith y newidiadau hyn.

Mae prosesau gwella yn systematig ac yn gynyddol effeithiol. Mae arweinwyr wedi ymateb yn dda i argymhellion arolygiad blaenorol trwy gryfhau arfer asesu a mireinio'r defnydd o gynlluniau addysg unigol. Mae dealltwriaeth staff o ddisgwyliadau asesu yn gwella a'r defnydd o ddata adolygu yn dod yn fwy cyson. Er gwaethaf hyn, nid yw arweinwyr wedi sefydlu system ddigon cadarn ar gyfer olrhain cynnydd mewn medrau allweddol, sy'n cyfyngu ar eu gallu i werthuso effaith y cwricwlwm dros gyfnod yn llawn.

Mae llywodraethu'n darparu goruchwyliaeth strategol gref a her adeiladol. Mae ymweliadau monitro rheolaidd a chynllunio camau ymatebol yn cefnogi cysondeb â blaenoriaethau sefydliadol a gwelliant cynaledig. Mae llywodraethwyr hefyd wedi amlygu'r angen i wella olrhain medrau a chryfhau cydlyniad y cwricwlwm ABCh, gan ddangos dealltwriaeth glir o flaenoriaethau ar gyfer datblygu ymhellach.

O ganlyniad i arweinyddiaeth effeithiol a llywodraethu cadarn, mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu i fod yn gymuned fyfyriol, gydweithredol sy'n sicrhau deilliannau ystyrlon ar gyfer ei disgyblion. Mae ymrwymiad arweinwyr i feithrin perthnasoedd, hyrwyddo cydraddoldeb a chynnal disgwyliadau uchel yn helpu disgyblion i wneud cynnydd academaidd cyson a datblygu'n dda yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Sefydlu systemau cadarn i olrhain a monitro cynnydd disgyblion mewn medrau allweddol, yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

A2. Cryfhau cydlyniad a dilyniant addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion disgyblion ac yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno'n gyson ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2026